Ysgol Iolo Morganwg

Polisi Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

Nod ac Amcanion

Rydym ni yn Iolo Morganwg yn adnabod gwerth defnyddio TGCh fel adnodd dysgu ac addysgu ar gyfer plant ac oedolion a cheisiwn annog y disgyblion i ddod yn ymreolus ac yn annibynnol wrth ei ddefnyddio. Annelwn at ddatblygu patrwm gweithredu TGCh ysgol gyfan a fydd yn sicrhau dilyniant a pharhad tra'n ymateb yn bositif i'r canlynol:

- Credwn bod datblygiad cyflym TGCh yn y cartref, y man gweithio a'r gymuned ehangach wedi cael, ac yn parhau i gael, effaith a dylanwad enfawr ar fywydau unigolion. Mae angen i blant ddatblygu ystod eang o sgiliau TGCh, a fydd yn eu galluogi i gydio yng ngrym y dechnoleg yma a'i ddefnyddio yn addas ac i bwrpas.

- Credwn bod TGCh yn fodd pwerus ac ysgogol o wella cyrhaeddiad ar draws y cwricwlwm ac yn gyfrwng dysgu pwysig iawn ar bob lefel addysgiadol, sydd, trwy defnydd effeithiol ohono yn galluogi disgyblion ac oedolion i ymestyn ac ehangu eu cyfleoedd dysgu

- Credwn bod defnydd effeithiol o DGCh yn galluogi disgyblion i gyfathrebu eu syniadau mewn modd creadigol sy'n ymestyn tu hwnt i furiau'r dosbarth ac sy'n cario goblygiadau a chanlyniadau moesegol.

Ein Amcanion Penodol ar gyfer TGCh yw:

- I ddarparu cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau TGCh ym mhob maes a nodwyd yng Ngorchmynion y Cwricwlwm Cenedlaethol.

- I ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o ddefnydd TGCh, nid yn unig yn y dosbarth, ond hefyd yn eu bywyd bob dydd.

- I alluogi 'r disgyblion i werthuso posibiliadau a chyfyngiadau cyfrifiaduron a thechnoleg.

- I ddatblygu meddwl rhesymegol a datrys problemau.

- I ddarparu cyfleoedd i'r disgyblion gael gwybodaeth am offer TGCh, a'u hyfforddi i'w defnyddio. Mae'r offer yn cynnwys CD-ROM, prosesyddion geiriau, cronfeydd data, taenlenni, rhaglenni modelu, pecynau graffeg, bwrddgyhoeddi, sain ac amlgyfrwng, y rhyngrwyd, offer rheoli, offer golygu a chamerau digidol/camerau fideo,

CYNLLUNIO

Yn Iolo Morganwg caiff y disgyblion gyfleoedd i brofi TGCh mewn dwy ffordd.

Fel Pwnc Ar Wahan – Addysgu rhaglen waith TGCh wedi ei seilio ar sgiliau penodol sy'n seiliedig ar y Rhaglen Waith a amlinellir yn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Map Cwricwlwm Iolo Morganwg – Atodiad (i)

Mae pob disgybl o Flynyddoedd 1 i 6 yn treulio awr yr wythnos yn cwblhau'r dasg ar gyfer yr wythnos honno. Er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd mae pob dosbarth a chyfnod wedi ei amserlennu ar gyfer ddefnydd o'r bws cluniaduron neu'r Notebooks (Bl.5 a 6). *(Gweler Atodiad (i) Amserlen y Bws Cluniaduron)*
Datblygwyd y Cynllun Gwaith gan yr arweinydd pwnc mewn ymgynghoriad ag Athrawes Ymgynghorol y Sir. Dyletswydd yr athrawon dosbarth yw cynllunio gwersi wythnosol, trwy ddilyn yr amcanion addysgu o'r Cynllun Gwaith, eu haddasu ar gyfer anghenion eu disgyblion a sicrhau bod cyfleodd i'r plant brofi amrywiaeth o strategaethau dysgu gan gynnwys gwaith grŵp, pâr ac unigol, gwaith ymchwiliol, datrys problemau a dysgu ymholiadol.

Cefnogi'r Cwricwlwm Eang – Mae'r defnydd o sgiliau ac adnoddau TGCh yn amod statudol o holl bynciau'r C.C. heblaw am Addysg Gorfforol. Felly dylai TGCh fod yn ffactor allweddol ym mhob rhan o'r cwricwlwm o ymchwil gan ddefnyddio modelu, CDROMiau a'r rhyngrwyd i'r defnydd o brosesydd geiriau i gynhyrchu testun gwreiddiol o safon. Mae arweinwyr pynciau eraill wedi rhoi cyfleoedd i ddefnyddio TGCh fel adnodd i gyfannu amcanion dysgu eu pynciau yn eu cynlluniau gwaith.

Er mwyn sicrhau fod hyn yn digwydd caiff Blynyddoedd 1 i 6 fynediad rheoliadd i'r bws cluniaduron yn ystod cyfnodau Llythrennedd a Rhifedd, yn ogystal â mynediad ar gyfnodau pynciau eraill fel bo angen. Mae Bl.5 a 6 yn rhannu 11 Notebook yn ogystal. Mae hefyd gyfrifiaduron wedi eu rhwydweithio ym mhob dosbarth sy'n cael eu ddefnyddio'n ddyddiol ac sy'n rhoi mynediad i wefannau priodol trwy gysylltiad bandeang a ddarperir gan Gyngor Bro Morgannwg. Mae'r cluniaduron a'r Notebooks wedi eu cysylltu i'r rhwydwaith/bandeang yn ddi-wifr.

Mae'r Cyngor Ysgol â chaniatad i ddefnyddio'r Notebooks sy'n cael eu cadw ym Mlwyddyn 5 ar amser cinio os am wneud gwaith penodol.

Medrau Allweddol

Sicrheir bod cyfleodd i ddatblygu'r medrau allweddol o fewn y Cynllun Gwaith TGCh.

Asesu, Recordio ac Adrodd yn ol.

Bydd yr athrawon yn asesu TG yn rheolaidd yn ôl datganiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn ateb yn ôl i rieni ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Bydd cofnod o gyrhaeddiad yn cael ei nodi yn erbyn pob uned ar ddiwedd hanner tymor o waith yn electroneg ar y system tracio. Mae tasgiau addas ar gyfer asesu yn cynnwys: -

- Trafodaeth grwpiau bach ynghyd destun tasg ymarferol.
- Tasgiau TGCh penodol ar gyfer unigolion.
- Trafodaethau unigol ble annogir y plant i werthuso'i gwaith a'u datblygiad eu hunain.

Defnyddir 2Assess fel cynllun asesu a chofnodi cynnydd unigolion yn ogystal ond gan iddo fod yn nyddiau cynnar ei ddefnydd daliwn ati i asesu yn y ffordd draddodiadol hefyd. Bydd gwaith y plant yn cael ei gadw ar ffeiliau unigol sydd wedi eu sefydlu ar y ffeilweinyddwr er mwyn creu proffil o waith a chynnydd unigolion.

CYNNYDD A GWAHANIAETHU

Dylai cynllunio ar gyfer TGCh sicrhau dilyniant a datblygiad. Mae datblygiad o fewn TGCh yn cynnwys pedwar prif agwedd: -

- Datblygiad cynyddol o fewn sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion.
- Ehangder cymwysiadau TGCh.
- Cymhlethdod cynyddol y cyd-destunau ble defnyddir TGCh.
- Tyfiant ymreoliad y disgybl yn ei ddysgu.

Bydd y Cynllun Gwaith a'i bwyslais ar dderbyn sgiliau TGCh penodol yn sefydlu dilyniant addas o sgiliau a gweithgareddau ar draws y ddau gyfnod allweddol. Ar bob lefel, mae angen i'r plant ddefnyddio sgiliau TGCh sy'n cynyddu yn eu cymhlethdod ac i wneud mwy o ddefnydd o nodweddion a galluoedd pecyn meddalwedd. Mae datblygiad y sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth perthnasol angen profiad dilyniannol o ddefnyddio amrywiaeth o feddalwedd mewn cyd-destunau gwahanol, os yn bosib o oedran cynnar ac ar draws prif feysydd y cwricwlwm.

Gwahaniaethu

Bydd gwahaniaethu yn digwydd trwy weithgareddau gwahaniaethol a thrwy wahaniaethu bwriad canlyniadau. Er enghraifft, bydd disgyblion sy'n gwneud cynnydd da yn cael eu hannog i ymestyn eu profiadau TGCh unai drwy ddefnyddio meddalwedd mwy heriol (er enghraifft defnyddio nodweddion ehangach a mfwy cymhleth rhaglen), neu becyn meddalwedd ar lefel uwch er mwyn meddu ar fwy o brofiad, neu trwy ymestyn y dasg a osodwyd. Gan fod gan y plant wahanol alluoedd a doniau mewn TGCh bydd eu cynnydd yn amrywiol, one mae'n bwysig sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau yn y maes cwricwlaidd hwn ac yn cyrraedd eu potensial.

Cyfleoedd Cyfartal

Bydd gweithgareddau TGCh yn cael eu cynllunio a'u cofnodi i sicrhau bod pob plentyn yn cael yr un cyfleoedd i ddefnyddio a datblygu ei sgiliau a'u gwybodaeth yn unol a'r polisi cyfleoedd cyfartal.

Disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae plant sydd ag ADY yn elwa o ddefnyddio TGCh gan iddo gynnyddu mynediad i'r cwricwlwm, ac mae hyn yn ei dro yn hyrwyddo cymhelliant a datblygiad y sgiliau sy'n sicrhau gwell cyrhaeddiad. Felly, dylid manteisio ar y cyfleoedd i ddefnyddio TGCh gyda plant ADY. Bydd yr Arweinydd Pwnc yn cyd-weithio gyda'r Cydlunydd ADY i ddatblygu cefnogaeth TGCh ar gyfer nodau dysgu penodol ac i unigolion yn ôl y gofyn. Mae cyfrifiadur yn yr Ystafell ADY ar gyfer plant ADY ond maent yn cael yr un yn cyfleoedd TGCh a gweddill y disgyblion, ac yn cael mynediad i'r un cwricwlwm. Sicrhewn ehangder lefelau tasgau fel bod yna fynediad priodol i bawb a bod cyfleoedd i dderbyn her a dangos gallu.

DIOGELWCH PLANT

Mae rhwydweithiau, gan gynnwys y rhai y gellir cael mynediad iddynt trwy'r Rhyngrwyd, yn agwedd bwysig iawn o addysg technoleg gwybodaeth. Er hyn, gallent beri peryglon i ddatblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion, yn enwedig yn nhermau agweddau o'r deunydd y gellir ei gael drwy'r Rhyngrwyd. Y mae'n angenrheidiol felly bod defnydd disgyblion o'r rhwydwaith ac yn enwedig y

Rhyngrwyd yn cael ei lywodraethu gan Bolisi Defnydd Derbyniol o'r Rhyngrwyd Ysgol Iolo Morganwg.

Mynediad i'r Rhyngrwyd a Defnydd o E-Bost.

Mae'r Polisi Defnydd Derbyniol o'r Rhyngrwyd (Atodiad (v)) yn llywodraethu mynediad i a defnydd o'r Rhyngrwyd yn Ysgol Iolo Morganwg.

Caiff defnydd y disgyblion o E-Bost ei weinyddu trwy system E-Bost y Sir (Vogmail) a chaiff ei lywodraethu gan Bolisi Defnydd Disgyblion o E-bost. (Atodiad (vi)

Mae defnydd y disgyblion o'r Rhyngrwyd y seiliedig ar Gôd Mynediad Cyfrifol i'r Rhyngrwyd. Ysgol Iolo Morganwg (Atodiad (vii).

IECHYD A DIOGELWCH

Mae agweddau Iechyd a Diogelwch o fewn TGCh yn cynnwys cymryd gofal:

- Wrth osod a symud offer.
- Sefydlu amgylchiadau gweithio addas.
- Diogelwch trydanol cyffredinol.

Y mae'n holl bwysig bod pob offer trydanol yn cael ei gadw mewn cyflwr gweithiol da. Er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch staff a disgyblion mae'n angenrheidiol cadw at y rheolau isod:

- Ni ddylid gadael i ddisgyblion droi'r pŵer ymlaen yn y prif gyflenwad.
- Ni chaniateir bwyta nac yfed wrth ymyl unrhyw gyfirifadur neu offer TGCh.
- Dylid goruchwylio disgyblion bob tro maent yn defnyddio offer trydanol.
- Dylid gwirio plygiau, gwifrau ac offer yn rheolaidd a'u profi am ddiogelwch trydanol yn ôl canllawiau'r Sir.
- Ni ddylid gadael i ddisgyblion gario offer heblaw am Notebooks a chluniaduron o'r bws i'r dosbarth dan oruchwyliaeth aelod o staff.
- Ni osodir systemau cyfrifiadurol ger magnedau a sicrheir bod gwifrau wedi eu gosod mewn modd diogel er mwyn sicrhau na fydd neb yn baglu drostynt.
- Ni fydd plant yn gweithio o flaen sgrin cyfrifiadur am fwy na awr ar y tro.

POLISI GWRTH-FIRWS

Mae peiriannau rhwydweithiol Iolo Morganwg yn defnyddio diogelwch gwrth – firws 'Avasti' sy'n cael ei lawrlwytho o'r Sir.. Caiff ei gronfa ddata ei ddiweddaru'n rheoliadd. Bydd yr arweinydd pwnc yn gwirio pob cyfrifiadur yn rheolaidd i sicrhau bod y rhwydwaith yn parhau'n ddi-firws. Yn anffodus, oherwydd gweithgareddau rhai firwsiaid, mae'n annatod bod gwaith yn cael ei golli ar adegau, ond cawn wybodaeth am unrhyw feirws sy'n beryglus i rwydwaith Iolo Morganwg.

Er mwyn lleihau'r perygl o feirws yn treiddio i un o gyfrifiaduron yr ysgol dylid dilyn y canllawiau isod:

Ni ddylid defnyddio cryno-ddisgiau na ffyn cof i drosglwyddo gwaith o'r cartref i'r ysgol. Yn hytrach dylid e-bostio'r gwaith/ffeiliau. Os oes angen defnyddio ffon gof am

reswm dilys dylid sicrhau bod meddalwedd gwrth-firws y cyfrifiadur yn gweithio'n iawn CYN cysylltu'r ffon gof.

Ni ddylai disgyblion gyflwyno disgiau na ffyn cof o gartref i systemau'r ysgol heb ganiatad penodol gan aelod o'r staff sydd wedi mabwysiadu cyfrifoldeb dros redeg gwiriadau gwrth-feirws ar ffeiliau o'r fath cyn eu defnyddio.

Mae atodiadau E-bost yn cyflwyno perygl mawr o heintiad feirws ac ni ddylid eu hagor os na ellir adnabod y danfonydd. Dylid dileu unryw e-bost pan na ellir adanbod y danfonydd. Os mewn unrhyw amheuaeth dylid cysylltu â'r Arweinydd Pwnc CYN agor unrhyw e-bost neu ffeil gysylltiedig.

Datblygiad Proffesiynol.

Mae Iolo Morganwg yn adnabod pwysigrwydd datblygiad proffesiynol yr holl staff ac yn sicrhau eu bod yn parhau yn gyfochrog ag unrhyw ddatblygiadau TGCh. Caiff pob aelod o'r staff y cyfle i fynd ar gyrsiau sy'n datblygu sgiliau TGCh o fewn eu meysydd a'u diddordeb ac ar unrhyw gyrsiau hyfforddi a fydd o gymorth iddyn nhw ddatblygu sgiliau, hyder a gallu TGCh. Mae'r Arweinydd Pwnc yn cynnal awdit o sgiliau ac anghenion TGCh y staff yn rheolaidd ac yn datblygu cynllun hyfforddi yn sgil y canfyddiadau. Mae hefyd yn cydweithio â staff unigol gan gynnig cyngor technegol a chynllunio fel bo angen tra bod aelodau staff eraill yn barod iawn i gynorthwyo ei gilydd a rhannu gwybodaeth/galluoedd a chynhelir sesiynau hyfforddi anffurfiol er mwyn atgoffa neu ddatblygu sgiliau ymhellach.

Mae gan bob aelod o'r staff gluniadur dosbarth a gaiff ei ddefnyddio ar gyfer cynllunio, asesu ac unrhyw waith ysgol boed ar dir yr ysgol neu gartref. Mae ganddynt blygell bersonol ar y rhwydwaith yn ogystal â chyfeiriad e-bost personol ar gyfer defnydd proffesiynol o fewn system ysgolion Y Fro.

Y Gymuned

Defnyddir cysylltiadau gyda'r Gymuned leol er mwyn datblygu ymwybyddiaeth o ddefnydd TGCh yn y byd ehangnach.
Yn ogystal gwahoddir aelodau o'r gymuned i'r ysgol i siarad â'r plant i wneud cyflwyniadau amlgyfrwng, a defnyddiwn TGCh i gysylltu â busnesau lleol, i wneud gwaith ymchwil am y gymuned ac i hysbysebu gweithgareddau'r ysgol – trwy wefan yr ysgol.

Ymweliadau Addysgol

Manteisiwn ar gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth y disgyblion o ddefnydd TGCh yn y byd ehangach pan ar ymweliadau. Yn ogystal defnyddiwn gamerau digidol i gofnodi gweithgareddau, a TGCh i arddangos a chyflwyno ein gwaith.

Adnoddau

Mae cyllid TGCh yn cael ei osod ar ddechrau pob blwyddyn ariannol. Caiff y mwyafrif o'r cyllid ei ddefnyddio ar ,gytundeb cefnogaeth technegol y Sir ac ar brynu caledwedd, rhaglenni craidd a thrwyddedau, perifferolion a nwyddau traul. Caiff arian am feddalwedd ei dynnu o gyllid pynciau perthnasol. Ceir mwy o wybodaeth am gynllunio adnoddau yn y Cynllun Datblygu TGCh.

Rhaid trafod gyda'r Arweinydd Pwnc cyn prynu meddalwedd a bydd pob meddalwedd a brynir yn cael ei drwyddedu i'r ysgol. Cedwir meddalwedd sy'n addas i flwyddyn arbennig yn y dosbarth, tra bod meddalwedd addas i bynciau a mwy nag un dosbarth yn ganolog yn y swyddfa neu yn nosbarth yr Arweinydd Pwnc. Dylid dychwelyd unrhyw feddalwedd a fenthycir pan ddaw'r testun i ben.

Cyfrifoldeb athrawon dosbarth yw cadw cyfrifiaduron dosbarth a'r periffolion (allweddellau, CD-ROM, llygoden a.y.b.) mewn cyflwr gweithiol da, a sicrhau bod amgylchedd ddiogel a thaclus yn bodoli ar ac o gwmpas y cyfrifiadur. Cyfrifoldeb yr Arweinydd Pwnc yw gofalu am y bws cluniaduron a'i chynnwys, a Notebooks Bl.5 a 6..

Dylid rhoi gwybod i'r Arweinydd Pwnc am, unrhyw offer gwallus.

Ar hyn o bryd mae cymhareb cyfrifiadur o 1 i 4 o ddisgyblion, ac mae angen cadw at hyn neu ei wella. Bydd Cofrestr Adnoddau diweddar yn cael ei gadw gan yr Arweinydd Pwnc, yn manylu caledweddd yr ysgol trwy leoliad.

Dyma ddarpariaeth caledwedd yr ysgol:

Mae gan Ysgol Iolo Morganwg rwydwaith o 42 cyfrifiadur ar hyn o bryd.		
CYFNOD SYLFAEN	**CYFRIFIADURON SYMUDOL**	**GWEINYDDOL**
1 cyfrifiadur yn y Meithrin 3 cyfrifiadur yn y Derbyn 2 gyfrifiadur ym Ml.1 2 gyfrifiadur ym Ml.2 Pob un wedi eu rhwydweithio.	16 cluniadur ar y bws 11 Notebook rhwng Bl.5 a 6 (eu cadw ym Ml.5) I gyd wedi eu rhwydweithio yn ddi wifr.	Cyfrifiadur swyddfa Cyfrifiadur y Pennaeth Y ddau wedi eu rhywdweithio i system weinyddol ond y Pennaeth gyda mynediad i rwydwaith addysgiadol yr ysgol
CYFNOD ALLWEDDOL 2	**ANGHENION ADDYSGOL**	**STAFF/ADDYSGU**
8 cyfrifiadur wedi eu rhwydweithio (2 i bob dosbarth) 1 AppleMac heb ei rwydweithio - golygu	1 Cyfrifiadur wedi ei rwydweithio yn yr Ystafell ADY	8 cluniadur dosbarth i'w ddefnyddio gan athrawon ar gyfer gwaith ysgol – wedi eu rhwydweithio

Darpariaeth caledwedd ychwanegol		
CYFNOD SYLFAEN	**YN GANOLOG**	**GWEINYDDOL**
6 camera digidol 2 gamera fideo Flip 2 digi blue meicroffonau symudol 1 Smart Board – Derbyn 2 fwrdd gwyn rhyngweithiol 3 taflunydd	1 taflunydd – neuadd 1 taflunydd symudol llungopiydd – pawb yn argraffu iddo o gyfrifiaduron dosbarth – du a gwyn/lliw 1 ffeilweinyddwr rhwydwaith – yn storfa Bl.4	1 argraffydd.copiwr a sganiwr 1 argaffydd lliw 1 ffacs 1 camera fideo Flip
CYFNOD ALLWEDDOL 2		**GWYBODAETH**

2 gamera digidol 2 gamera fideo Flip 1 camera fideo digidol 1 sganiwr 1 argraffydd lliw A3 meicroffonau symudol 1 chwareydd DVD allanol		System weithredu = Windows XP Prif raglen – Microsoft Office 2003 Prif beiriant chwilio = Google

Dyddiadur Arweinydd Pwnc

Cedwir dyddiadur manwl gan yr Arweinydd Pwnc

Monitro, Gwerthuso a Hunanarfarnu

Bydd yr arweinydd pwnc, mewn cydweithrediad a'r Pennaeth a gweddill yr athrawon yn monitro effeitholrwydd y polisi yma. Caiff ei adolygu a'i ddiweddaru erbyn Haf 2005

Llofnod yr Arweinydd Pwnc: _____

Llofnod y Pennaeth: _____

Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr:_____

DyddiadCyhoeddi: _____

Dyddiad Adolygu'r Polisi: _____

ATODIAD (ii) – Map Cwricwlwm

TYMOR YR HYDREF	TYMOR Y GWANWYN	TYMOR YR HAF
Banc geiriau **Bl.1**	Modelu – Y Crwydryn **Bl.1**	Pictogramau **Bl.1**
Mae'r Byd yn Llawn o Wybodaeth **Bl.1**	Labelu a Dosbarthu **Bl.1**	Modelu – Efelychiad Heulwen Hwyaden a Hopcyn **Bl.1**
Prosesu Geiriau **Bl.2**	Holi ac Ateb **Bl.2**	Darganfod gwybodaeth CDROM **Bl.2**
Graffeg **Bl.2**	Modelu – Y Crwydryn **Bl.2**	Modelu – Efelychiad Gardd Mamgu **Bl.2**
Cyfuno testun a graffeg **Bl.3**	Sain **Bl.3**	E-Bost **Bl.3**
Modelu – archwilio efelychiad Badger Trails **Bl.3**	Cyflwyniad i Gronfeydd Data **Bl.3**	E Bost a Prosesu Geiriau **Bl.3**
Ysgrifennu i wahanol gynulleidfaoedd **Bl.4**	LOGO **Bl.4**	Cronfeydd data canghennog **Bl.4**
Datblygu delweddau trwy ailadrodd patrymau **Bl.4**	Bwrddgyhoeddi **Bl.4**	Modelu – Efelychiad ar y cyd Zoombinies Mountain Rescue **Bl.4**
Modelu graffigol **Bl.5**	Bwrddgyhoeddi **Bl.5**	Modelu – taenlenni **Bl.5**
Cronfa Ddata **Bl.5**	Dadansoddi data a holi: defnyddio archwiliadau cymhleth **Bl.5**	Cyflwyniad amlgyfrwng/podcast **Bl.5**

Sioe Sleidiau Powerpoint **Bl.6**		Defnyddio'r Rhyngrwyd i archwilio cronfeydd data mawr ac i ddadansoddi data **Bl.6**
Modelu - taenlenni **Bl.6**		Gwaith creadigol – ffilmio a golygu/sain/cofiant ysgol **Bl.6**

ATODIAD (v) Côd Defnydd Effeithiol o'r Rhyngrwyd Iolo Morganwg

Côd Defnydd Derbyniol o'r Rhyngrwyd Ysgol Iolo Morganwg

Pam mae defnydd o'r Rhyngrwyd yn bwysig?

Pwrpas defnyddio'r Rhyngrwyd yn yr ysgol yw:

- i godi safonau addysgiadol,
- i hyrwyddo cyrrhaeddiad disgyblion
- i gefnogi gwaith proffesiynol y staff
- i wella systemau gwybodaeth rheoli a gweinydddu busnes yr ysgol.

Yn ogystal, mae'r Rhyngrwyd yn elfen angenrheidiol o fywyd yn yr unfed ganrif ar hugain ar gyfer rhyngweithio addysgol, busnes a chymdeithasol. Mae'n ddyletswydd ar yr ysgol i ddarparu mynediad o safon i'r Rhyngrwyd fel rhan o brofiad dysgu yr holl ddisgyblion.

Sut fydd defnydd o'r Rhyngrwyd yn gwella dysgu?

Bydd mynediad i'r Rhyngrwyd yn yr ysgol wedi ei ddylunio'n uniongyrchol ar gyfer defnydd y disgyblion a bydd yn cynnwys hidlo addas ar gyfer oedran y disgyblion. Caiff y disgvblion eu dysgu beth sy'n dderbyniol a beth sydd ddim yn dderbyniol a chant nodau eglur ar gyfer defnyddio'r Rhyngrwyd. Bydd mynediad i'r Rhyngrwyd wedi ei gynllunio er mwyn cyfoethogi ac ymestyn gweithgareddau dysgu a chaiff y disgyblion eu harwain drwy weithgareddau ar-lein a fydd yn cefnogi'r canlyniadau dysgu a gynlluniwyd. Caiff y disgyblion eu dysgu sut i ddefnyddio'r Rhyngrwyd yn effeithiol i wneud ymchwil, gan gynnwys sgiliau lleoli gwybodaeth a'i adennill.

Mynediad Addas i'r Rhyngrwyd.

Mae'r Rhyngrwyd yn darparu mynediad i adnoddau gwybodaeth eang y We Fyd Eang (WWW) ac mae'n caniatau cyfnewid gwybodaeth yn electronig trwy gyfrwng E-bost. Pan yn defnyddio systemau'r ysgol, disgwylir bod defnydd o'r Rhyngrwyd ar gyfer busnes y cyngor neu i bwrpas addysgiadol yn unig, ac o ganlyniad yn addas, yn berthnasol i ddyletswydd ac yn garcus o ddisgyblaethau diogewlch.

Bydd Cod Rhyngrwyd Cyfrifol Iolo Morganwg yn llywodraethu mynediad y disgyblion i'r Rhyngrwyd.

Mae'n rhaid i unrhyw wybodaeth a lawrlwythir barchu hawlfraint, hawliau eiddo a phreifatrwydd. Cedwir gwybodaeth yn storfa dros dro'r system a gall, o ganlyniad, gael ei weld gan ddefnyddiwyr eraill, gan gynnwys disgyblion. Mae'n rhaid i wybodaeth a lwythir i fyny fod yn garcus o gyfrinachedd, diolgelwch data a pheidio gwrthdaro gyda pholisiau'r Cyngor. Mae llawrlwytho deunydd tramgwyddus neu

ddinoethol , meddalwedd di-drwydded neu feddalwedd ar gyfer defnydd personol yn torri rheolau'r Cyngor.
Dylid dweud wrth y Pennaeth neu'r Arweinydd Pwnc am unrhyw wefannau tramgwyddus sydd wedi dod heibio bloc yn system hidlo neu llen-dan y Cyngor. Caiff pob aelod o'r staff gan gynnwys staff dros dro, cynorthwywyr dosbarth a staff cynnal, gopi o Bolisi Rhyngrwyd yr ysgol, a chaiff ei bwysigrwydd ei esbonio'n glir ar ddechrau pob blwyddyn addysgol.

Dylai staff fod yn ymwybodol bod traffig y Rhyngrwyd yn gallu cael ei fonitro a'i ddilyn nol i ddefnyddiwyr unigol. Mae doethineb ac ymddygiad proffesiynol yn angenrheidiol bob amser.

Sut asesir y peryglon?

Fel a ddigwydd mewn cyfryngau eraill megis cylchgronnau, llyfrau a fideos, mae rhywfaint o'r deunydd sydd ar y Rhyngrwyd yn anaddas i ddisgyblion ysgol gynradd. Bydd yr ysgol yn sicrhau, cyn belled a fo'n bosib, bod y disgyblion yn cael mynediad i ddeunydd sy'n addas iddyn nhw yn unig. Er hyn, oherwydd graddfa ryngwladol a natur gysylltiedig cynnwys y Rhyngrwyd, nid yw'n bosib rhoi sicrwydd na fydd deunydd anaddas byth yn ymddangos ar gyfrifiadur ysgol. Ni all yr ysgol dderbyn atebolrwydd am y deunydd a fynedir, na chanlyniad unrhyw ganlyniadau a ddaw yn sgil mynediad i'r Rhyngrwyd. Bydd y Pennaeth yn sicrhau bod y Polisi Rhyngrwyd yn ei le ac yn monitro ufudd dod i'r polisi.

Sut fydd hidlo'n cael ei reoli?

Mae pob mynediad i'r Rhyngrwyd yn Iolo Morganwg trwy ddarpariaeth hidledig Caerdydd, a fydd yn atal mynediad i unrhyw wefannau y mae'n tybio i fod yn anaddas.

Ydy grwpiau newyddion (newsgroups) a sgwrsio (chat) yn ddiogel?

Ni fydd y disgyblion yn cael mynediad i ystafelloedd sgwrsio (chat rooms) anrheoledig na chyhoeddus. Ni fydd grwpiau newyddion yn cael eu defnyddio os nad oes angen addysgol dros eu defnyddio.

Sut fydd mynediad i'r Rhyngrwyd yn cael ei awdurdodi?

Ni ganiateir i'r disgyblion fynd ar y Rhyngrwyd heb ganiatad, a byth heb oruchwyliaeth. Mae gan yr holl staff ganiatad i ddefnyddio'r Rhyngrwyd at ddefnydd proffesiynol ac addysgol

Sut ddylid rheoli cynnwys Gwefan?

Cyfeiriad, rhif ffon ac e-bost yr ysgol yw'r unig bwyntiau cyswllt gaiff eu cyhoeddi ar y We fan. Ni ddylid, ar unrhyw gyfrif, gyhoeddi gwybodaeth cartref staff na disgyblion.

Os rhoddir ffotograffiau o'r disgyblion arni, dylid eu dewis yn ofalus gan sicrhau na ellir adnabod disgyblion unigol. Ni fydd enwau llawn disgyblion yn cael eu defnyddio o gwbl. Bydd yr arweinydd pwnc TG yn cymryd cyfrifoldeb golygyddol drosti ac yn sicrhau bod y cynnwys yn fanwl gywir ac yn addas.

Dylai hawlfraint yr holl ddeunydd fod yn berchen i'r ysgol, neu wedi ei briodoleddu i'r perchennog pan mae hawl i ailgynhyrchu wedi ei roi.

Sut ellir rheoli ffyrdd newydd o ddefnyddio'r Rhyngrwyd?

Bydd technoleg newydd yn cael ei archwilio am elwau addysgiadol a bydd asesiad risg yn cael ei gynnal cyn y caniateir ei ddefnyddio yn yr ysgol. Ni ddefnyddir ffonau

symudol yn ystod oriau ysgol ac mae danfod negeseuon testun tramgwyddus neu anaddas yn waharddedig.

Sut fydd diogelwch system TG yn cael ei gynnal?

Bydd diogelwch system TGCh yr ysgol yn cael ei adolygu'n flynyddol gan y Pennaeth a'r Arweinydd Pwnc

Caiff y feddalwedd gwrth-feirws ei diweddaru'n rheolaidd trwy lawrlwytho awtomatig o'r Sir.

Bydd y defnydd o ddisgiau meddal yn cael ei adolygu. Ni ganiateir dod a disgiau o gartref heb ganiatad penodol a gwiriad feirws.

Gwirir ffeiliau a gedwir ar rhwydwaith yr ysgol yn rheolaidd gan yr Arweinydd Pwnc.

Os yw'r staff an ansicr am unrhyw beth dylid cysylltu a'r Pennaeth neu'r Arweinydd Pwnc.

Atodiad (vi)

Polisi Defnyddio E-bost Disgyblion Ysgol Iolo Morganwg

Sail Rhesymegol

Mae E-bost yn fodd angenrheidiol o gyfathrebu o fewn addysg. Mae'r llywodraeth yn annog perchenogaeth cyfeiriadau e-bost i bob dosbarth er mwy galuogi pob disgybl i gyfathrebu'n electroneg gan eu cadw'n ddiogel.

Gofynion y Cwricwlwm

Dylid addysgu'r disgyblion i :

1. ddefnyddio cyfarpar a meddalwedd TGCh i gyfathrebu, rhannu a chyfnewid syniadau a gwybodaeth mewn gwahanol ffurfiau, gan gynwys testun, graffiau, lluniau a sain, fel sydd yn briodol, a dangos sensitifrwydd i anghenion eu cynulleidfa e.e. *creu poster i hysbysu cyngerdd yn yr ysgol, gan ddefnyddio clipluniau a phecyn arlunio,* ***atodi dogfen wrth e-bost****, cyflwyniad amlgyfrwng.*

Defnyddio E-bost

Mae ein CynllunGwaith yn cynnwys defnydd o e-bost i'w addysgu yn ystod Blwyddyn 3:

Bydd y plant yn dysgu defnyddio e-bost (post electronig) i ddanfon a derbyn negeseuon. Byddant yn dysgu am gyfathrebu dros bellteroedd ac yn gorfod meddwl am a chymharu gwahanol ffyrdd o gyfathrebu.

Gall defnyddio e-bost gynorthwyo'r disgyblion i ddatblygu eu sgiliau darllen ac ysgrifennu a datblygu eu gwybodaeth o'r gymuned ehangach. Mae'r uned yn gofyn am gydweithrediad ag ysgolion eraill.

Bydd y plant yn defnyddio beth maent wedi ei ddysgu yn yr uned hon wrth ddefnyddio e-bost, casglu gwybodaeth, datblygu cyweithiau cydweithredol, ac ysgrifennu ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.

CANLYNIADAU **ar ddiwedd yr uned yma bydd**	
y mwyafrif o'r plant yn gallu:	Danfod, derbyn ac ymateb i e-bostiau; datblygu a gwella negeseuon testun.
rhai o'r plant heb wneud cymaint o gynnyddd ac yn gallu:	Derbyn ac ymateb i e-bostiau.
rhai plant wedi gwneud cynnydd pellach ac yn gallu:	Danfod, derbyn ac ymateb i e-bostiau; datblygu a gwella negeseuon testun; danfon testunau a lluniau fel ymgysylltiadau.

Yn ogystal bydd defnydd o e-bost yn cynnig cyfleoedd ysgrifennu traws-gwricwlaidd ac yn ymestyn cysylltiadau dosbarth ac ysgol trwy gyweithiau Ymwybyddiaeth Ewropeaidd a Byd Eang.

Rhwydweithiau mewnol Technegol.

Beth yw post electronig?

Dyma ffordd o ddanfon negeseuon o un person i'r llall trwy'r Rhyngrwyd. Mae gan pawb sy'n defnyddio'r Rhyngrwyd gyfeiriad e-bost unigryw (megis pwybynnag@msn.com) a thrwy ddanfon neges i'r cyfeiriad yma, gall y derbynydd ddarllen y neges y tro nesaf mae'n cysylltu i'r Rhyngrwyd.

Ar hyn o bryd mae cyfrifiadau dosbarth yn enw'r dosbarthiadau, wedi eu cofrestru trwy'r sir. Mae hyn yn galluogi'r plant i ddanfon negeseuon o dan oruchwyliaeth eu hathrawon, ond nid ydynt yn gallu logio ymlaen yn unigol. Ni all y disgyblion ddefnyddio'r cyfrifiad e-bost heb fod athro'n bresennol gan nad ydynt yn gwybod cyfrinair y cyfrifiad.

Mae gan athrawon eu cyfrifiadau personol.

Defnydd Disgyblion.

Mae defnydd y ddisgyblion o e-bost yn sgil Polisi Defnydd o'r Rhyngrwyd yr ysgol ac unrhyw bolisiau a dogfennaeth TGCh perthnasol.

Mae'r ysgol wedi datblygu canllawiau ar gyfer defnyddio'r Rhyngrwyd gan ddisgyblion. Bydd y rheolau yma ar gael i bob disgybl ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae pob aelod o'r staff yn gyfrifol am esbonio'r rheolau a'u goblygiadau. Dylai pob aelod o'r staff fod yn ymwybodol o gamddefnydd posib mynediad ar-lein a'u cyfrifoldebau tuag at y disgyblion.

Rheolau

- Dylid defnyddio e-bost yn yr ysgol i bwrpas addysgiadol yn unig.
- Bydd e-bost i bob dosbarth yn cael ei gymedroli gan yr athro dosbarth.

- Nid yw'r plant i sgwrsio nac ymateb i unrhyw ddefnyddiwyr eraill ar y Rhyngrwyd heb ganiatad neu oruchwyliaeth eu hathro dosbarth.

- Peidiwch byth a rhoi eich cyfeiriad gartref na'ch rhif teliffon i unrhyw un yr ydych yn ei gwrdd ar y Rhyngrwyd.

- Peidiwch byth a danfod llun ohonoch eich hun nac unrhyw beth arall heb ganiatad eich athro dosbarth.

- Peidiwch byth a threfnu i gwrdd a neb wyneb i wyneb.

- Peidiwch byth ag ymateb i e-bostiau cas neu anwaraidd.

- Caiff e-bost sy'n dod i fewn ei ystyried fel neges cyhoeddus. Gall e-bost sydd wedi ei dderbyn cael ei archwilio a'i osod ar binfwrdd i'w gasglu gan ddisgyblion.

Llofnod yr Arweinydd Pwnc: _____

Llofnod y Pennaeth: _____

Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr: _____

Dyddiad Cyhoedi: _____

Dyddiad Adolygu'r Polisi: _____

Atodiad (vii) Côd Mynediad Cyfrifol i'r Rhyngrwyd Iolo Morganwg

Rydym yn defnyddio cyfrifiaduron a mynediad i'r Rhyngrwyd yr ysgol i ddysgu. Bydd y rheolau hyn yn ein cynorthwyo i fod yn deg i eraill ac i gadw pawb yn ddiogel.

- ✓ **Byddaf yn gofyn caniatad cyn mynd ar wefan, oni bai bod fy athro wedi cymeradwyo'r wefan yn barod.**

- ✓ **Ar y rhwydwaith, byddaf yn defnyddio fy ffeil fy hun yn unig. Ni fyddaf yn edrych ar nac yn cyffwrdd ffeiliau pobl eraill.**

- ✓ **Ni fyddaf yn dod a disgiau meddal i'r ysgol heb ganiatad. Rydw i'n gwybod gall yr ysgol wirio fy ffeiliau cyfrifiadurol a monitro'r gwefannau yr wyf yn ymweld a hwy.**

- ✓ **Deallaf y gallaf gael fy rhwystro rhag defnyddio'r cyfrifiaduron neu'r Rhyngrwyd os torraf y rheolau hyn yn fwriadol.**

Y Rheolau

- Dylid defnyddio e-bost yn yr ysgol i bwrpas addysgiadol yn unig.

- Bydd e-bost i bob dosbarth yn cael ei gymedroli gan yr athro dosbarth.

- Nid yw'r plant i sgwrsio nac ymateb i unrhyw ddefnyddiwyr eraill ar y Rhyngrwyd heb ganiatad neu oruchwyliaeth eu hathro dosbarth.

- Peidiwch byth a rhoi eich cyfeiriad gartref na'ch rhif teliffon i unrhyw un yr ydych yn ei gwrdd ar y Rhyngrwyd.

- Peidiwch byth a danfod llun ohonoch eich hun nac unrhyw beth arall heb ganiatad eich athro dosbarth.

- Peidiwch byth a threfnu i gwrdd a neb wyneb i wyneb.

- Peidiwch byth ag ymateb i e-bostiau cas neu anwaraidd.

- Caiff e-bost sy'n dod i fewn ei ystyried fel neges cyhoeddus. Gall e-bost sydd wedi ei dderbyn cael ei archwilio a'i osod ar binfwrdd i'w gasglu gan ddisgyblion.